TGAU

CBAC TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg (Dwyradd yn unig)

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

Uned 5: Ymateb a Chreu
Ar gyfer carfan Blwyddyn 10 yn dechrau o fis Medi 2026 ymlaen
Dyfarniad cyntaf 2028
Fersiwn 3



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Hoffai CBAC ddiolch i fyfyrwyr ac athrawon Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd ac Ysgol Uwchradd Llanwern, Casnewydd am gymryd rhan yn y gwaith o greu'r cloriau hyn.

CRYNODEB O NEWIDIADAU

Fersiwn	Disgrifiad	Rhif y dudalen
2	AMH	AMH
3	Addasu'r wybodaeth ynghylch dyddiadau rhyddhau'r deunyddiau ysgogiadau print i ganolfannau	1
	Eglurhad ynghylch cynnwys aelod(au) nad ydynt yn cael eu hasesu mewn trafodaethau grŵp.	2
	Addasu'r wybodaeth am ddefnydd adnoddau ar-lein ar gyfer Tasg 2	3

© WJEC CBAC Ltd 2026

Cynnwys

Tasg 1
Asesu 4
Atodiad 1 10
Atodiad 2 11

Hawlfraint

© WJEC CBAC Limited 2026

© WJEC CBAC Ltd 2026

Uned 5

3030N5
Manylion Asesu

Asesiad di-arholiad: 20% o'r cymhwyster Trafodaeth Grŵp a Thasg Ysgrifenedig Wedi'i osod gan CBAC, ei farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC 60 marc

Tasg

Mae gofyn i ddysgwyr:

Tasg 1: Ymateb a Rhyngweithio

- ymateb i ddeunyddiau ysgogi print a osodwyd gan CBAC
- cymryd rhan mewn trafodaeth grŵp hyd at 10 munud o hyd
- siarad a gwrando mewn grwpiau o 3.

Tasg 2: Ysgrifennu'n Greadigol

- ysgrifennu tasg greadigol yn deillio o ddeunyddiau ysgogi print (rhwng 500 a 1,000 o eiriau)
- dewis **un** o'r ffurfiau canlynol:
  - blog
  - dyddiadur
  - portread
  - sgript
  - stori
  - ymson.

Bydd CBAC yn rhyddhau tri dewis o ddeunyddiau ysgogiadau print i ganolfannau. Cânt eu rhyddhau'n flynyddol ar Porth CBAC ym mis Medi 2026 ac ym mis Mehefin o 2027 ymlaen. Gweler isod:

Rhyddhau Ysgogiadau Print	Cyfres
Medi 2026	Haf 2027
Mehefin 2027	Haf 2028
Mehefin 2028	Haf 2029

Mae'n ofynnol i ganolfannau sicrhau eu bod yn defnyddio'r deunyddiau ysgogi cywir ar gyfer pob cyfres.

Mae modd i ddysgwyr ddefnyddio'r un deunydd ysgogi neu ddeunydd ysgogi gwahanol ar gyfer Tasg 1 a Tasg 2.

Dangosir deunyddiau ysgogi enghreifftiol yn Atodiad 1 isod.

© WJEC CBAC Ltd 2026

Tasg 1

Gosod y dasg:

Darperir deunyddiau ysgogi print yn seiliedig ar faterion cyfoes megis Delwedd neu Hawliau Dynol. Dylid defnyddio'r ysgogiadau hyn i gychwyn trafodaeth yn unig, a gellir cyfeirio at faterion perthnasol eraill nad ydynt yn cael eu crybwyll yn y deunydd a gyflwynir.

Cwblhau'r dasg

Goruchwyliaeth

Rhaid i ganolfannau gwblhau'r dasg dan oruchwyliaeth uniongyrchol.

Dylid gofyn i'r dysgwyr drafod y pwnc a ddewiswyd gan fynegi eu barn bersonol. Dylid caniatáu iddynt wneud hynny'n weddol annibynnol er y gellir ymyrryd ar adegau er mwyn symud y drafodaeth yn ei blaen. **Disgwylir trafodaeth naturiol heb ei sgriptio.**

Dylai'r drafodaeth gymryd tua **10 munud**.
Adnoddau

Caniateir i'r ymgeiswyr ddefnyddio nodiadau bras yn unig gyda'r sbardun pan fyddant yn cyflawni'r dasg. Bydd angen cyflwyno'r nodiadau yma gyda'r recordiad.

Os yw athro/athrawes yn ymyrryd er enghraifft i brocio dysgwr, dylid cofnodi hyn a chymryd hyn i ystyriaeth wrth asesu. Ceir mwy o wybodaeth am sut i ymdrin ag ymyrraeth athro/athrawes wrth asesu dysgwyr o fewn y Canllawiau i Athrawon.

Os bydd angen dylai athro/athrawes:
- sbarduno trafodaeth
- hybu newid y drafodaeth
- gofyn i ddysgwr gynnig tystiolaeth i gadarnhau syniadau neu ddatblygu dadl
- sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyfle i ymateb.

Gellir cynnwys aelod(au) nad ydynt yn cael eu hasesu, er enghraifft athro neu gynorthwyydd addysgu, fel aelod o drafodaethau grŵp mewn achosion o absenoldeb neu ofynion arbennig.

Dilysu'r Asesiadau Di-arholiad

Mae gofyn i ddysgwyr lofnodi mai eu gwaith eu hunain yw'r gwaith a gyflwynwyd ac mae gofyn i athrawon/aseswyr gadarnhau mai gwaith y dysgwr o dan sylw'n unig yw'r gwaith a asesir ac iddo gael ei wneud o dan yr amodau gofynnol. Bydd CBAC yn darparu copi o'r ffurflen ddilysu, sy'n rhan o'r ffurflen glawr ar gyfer pob dysgwr. Mae'n bwysig nodi bod gofyn i bob dysgwr lofnodi'r ffurflen hon, ac nid yn unig y rhai y mae eu gwaith yn rhan o'r sampl a gyflwynir i'r cymedrolwr. Nid oes angen adrodd i CBAC am gamymddygiad a ddarganfuwyd cyn i'r dysgwr lofnodi'r datganiad dilysu ond rhaid ymdrin ag ef yn unol â gweithdrefnau mewnol y ganolfan.

© WJEC CBAC Ltd 2026

Tasg 2

Gosod y dasg:

Dylid defnyddio'r deunyddiau ysgogi print fel man cychwyn i'r dasg, ond gellid cyfeirio at faterion perthnasol eraill nad ydynt yn cael eu crybwyll yn y deunydd a gyflwynir. Mae modd i ddysgwyr ddefnyddio'r un deunydd ysgogi neu ddeunydd ysgogi gwahanol ar gyfer Tasg 1 a Tasg 2.

Cwblhau'r dasg

Goruchwyliaeth
Dylai canolfannau gwblhau'r dasg dan oruchwyliaeth isel. Bydd angen sicrhau bod yr oruchwyliaeth yn ddigonol i sicrhau bod modd dilysu'r gwaith ac mai gwaith y dysgwr unigol a gyflwynir i'w asesu. Ni chaiff ymgeiswyr gydweithio â'i gilydd wrth gwblhau'r dasg.

Dylid nodi'r testun, y dasg, dyddiad y dasg ar y gwaith a gyflwynir i'w asesu.

Adnoddau

Wrth gwblhau'r dasg:
- gall dysgwyr ddefnyddio'r testun, cynllun a geiriaduron
- gall dysgwyr ddefnyddio Technoleg Gwybodaeth. Os bydd dysgwyr yn cyflawni'r dasg mewn ffurf electronig, yna rhaid cadw'r gwaith yn ddiogel rhwng sesiynau cyflawni'r dasg
- gwaherddir defnyddio AI i gynhyrchu ymatebion a chaiff ei drin fel camymddwyn.

Caniateir i athrawon adolygu'r gwaith a rhoi cyngor ar lefel gyffredinol i'r dysgwyr. Caniateir i ddysgwyr adolygu ac ailddrafftio gwaith. Caniateir hyd at **3 awr** i gyflawni'r dasg.

Ni ddylai dysgwr ailysgrifennu tasg na'i chywiro wedi i'r athro/athrawes ei marcio h.y. ni ddylid ar unrhyw gyfrif roi marc am waith fydd wedi ei gywiro mewn drafftiau cynt. Awgrymir y dylai hyd y dasg fod rhwng 500-1,000 o eiriau.

Dilysu'r Asesiadau Di arholiad

Mae gofyn i ddysgwyr lofnodi mai eu gwaith eu hunain yw'r gwaith a gyflwynwyd ac mae gofyn i athrawon/aseswyr gadarnhau mai gwaith y dysgwr o dan sylw'n unig yw'r gwaith a asesir ac iddo gael ei wneud o dan yr amodau gofynnol. Bydd CBAC yn darparu copi o'r ffurflen ddilysu, sy'n rhan o'r ffurflen glawr ar gyfer pob dysgwr. Mae'n bwysig nodi bod gofyn i bob dysgwr lofnodi'r ffurflen hon, ac nid yn unig y rhai y mae eu gwaith yn rhan o'r sampl a gyflwynir i'r safonwr. Nid oes angen adrodd i CBAC am gamymddygiad a ddarganfuwyd cyn i'r dysgwr lofnodi'r datganiad dilysu ond rhaid ymdrin ag ef yn unol â gweithdrefnau mewnol y ganolfan.

Cyn i unrhyw waith tuag at yr Asesiad Di arholiad gael ei wneud, dylid tynnu sylw'r dysgwyr at yr Hysbysiad i Ymgeiswyr perthnasol gan y CGC. Ceir cyswllt i'r hysbysiad yn y ddogfen Cyfarwyddiadau ar Gynnal Asesiadau dan Reolaeth ar wefan CGC (www.jcq.org.uk).

© WJEC CBAC Ltd 2026

Asesu

Disgwylir i’r athro / athrawes farcio’r dasg o gyfanswm o 40.

Tasg 1: Ymateb a Rhyngweithio

Dyfernir 20 marc ar gyfer AA1 (deall ac ymateb).

Dyfernir 20 marc ar gyfer AA2 (mynegi a chyfathrebu).

Dylid pennu'r band priodol ar gyfer pob colofn yn unigol drwy benderfynu pa ddisgrifydd perfformiad sy'n adlewyrchu perfformiad y dysgwr orau.

Yna dylid pennu'r marc priodol o fewn y band drwy bennu i ba raddau y mae'r dysgwr wedi bodloni'r meini prawf yn y band perthnasol.

Gall cyfanswm y marciau ar gyfer pob perfformiad adlewyrchu gwahanol fandiau ar draws y meini prawf asesu, er enghraifft, gall dysgwyr gyflawni band 4 yng ngholofn 1 a band 3 yng ngholofn 2.

Dylid nodi bod y bandiau wedi'u cynllunio i gynorthwyo'r broses farcio drwy nodi lefelau cyflawniad unigol ac nid ydynt yn cyfateb i ffiniau graddau.

© WJEC CBAC Ltd 2026

Band	AA1 Deall ac ymateb	AA2 Mynegi a chyfathrebu
	Cynnwys a threfn	**Cywair a chywirdeb iaith a strwythur brawddegol**
5	**17-20 marc** • cyfrannu'n aeddfed a threiddgar drwy gydol y drafodaeth • trafod yn ymestynnol gyda thystiolaeth briodol am gyd-destun cymdeithasol, diwylliannol, daearyddol a hanesyddol yr ysgogiad print perthnasol (fel y bo'n berthnasol) i gefnogi barn • gwrando'n astud a gofalus ar hyd yr amser, gan ddangos dealltwriaeth gwbl glir o syniadau cymhleth drwy ofyn cwestiynau treiddgar i newid cyfeiriad trafodaeth • pwyso a mesur safbwyntiau eraill yn ystyriol ac ymateb yn fedrus a gydag empathi • datblygu ac egluro syniadau wrth drafod gan ehangu a chrynhoi pan fo angen • ymdrin yn ddeallus â'r ysgogiad print perthnasol gan gynnwys dibynadwyedd a dilysrwydd ffynonellau a thystiolaeth	**17-20 marc** • defnyddio ystod eang o eirfa heriol ac addas yn hyderus i greu effaith neu i gyfleu ystyr benodol gywir • defnyddio cywair cwbl addas i'r dasg a'r gynulleidfa • gafael sicr iawn ar ramadeg • defnyddio amrywiaeth o frawddegau addas ac effeithiol • gafael sicr iawn ar dreigladau • gafael sicr iawn ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid
4	**13-16 marc** • cyfrannu'n hyderus a phwrpasol yn ystod y drafodaeth • trafod yn fanwl gan fynegi barn yn glir a chyflwyno tystiolaeth am gyd-destun cymdeithasol, diwylliannol, daearyddol a hanesyddol yr ysgogiad print perthnasol (fel y bo'n berthnasol) yn gyson • gwrando'n ofalus, gan ddangos dealltwriaeth glir o syniadau eithaf cymhleth drwy ofyn cwestiynau addas i newid cyfeiriad trafodaeth • pwyso a mesur safbwyntiau a theimladau eraill gan ymateb yn sensitif • datblygu syniadau i gynnal a hybu trafodaeth, gan ddangos peth gallu i ehangu a chrynhoi pan fo angen • ymdrin yn dda â'r ysgogiad print perthnasol gan gynnwys dibynadwyedd a dilysrwydd ffynonellau a thystiolaeth	**13-16 marc** • defnyddio ystod eang o eirfa yn gywir • defnyddio cywair priodol i'r dasg a'r gynulleidfa'n gyson • gafael sicr ar ramadeg • defnyddio amrywiaeth o frawddegau i greu effeithiau arbennig • gafael sicr ar dreigladau • gafael sicr ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid

© WJEC CBAC Ltd 2026

3	**9-12 marc** • cyfrannu'n sylweddol i ddatblygu'r drafodaeth • trafod a mynegi barn gyda pheth manylder a chyflwyno tystiolaeth berthnasol am gyd-destun cymdeithasol, diwylliannol, daearyddol a hanesyddol yr ysgogiad print perthnasol (fel y bo'n berthnasol) • gwrando'n eithaf gofalus , gan ddangos peth dealltwriaeth o amryw o syniadau drwy ofyn ambell gwestiwn addas i newid cyfeiriad trafodaeth • ymateb i safbwyntiau a theimladau eraill yn briodol • datblygu'r prif syniadau gan gyfeirio at fanylion penodol • ymdrin yn foddhaol â'r ysgogiad print perthnasol gan gynnwys dibynadwyedd a dilysrwydd ffynonellau a thystiolaeth	**9-12 marc** • defnyddio ystod dda o eirfa yn eithaf cywir • dangos ymwybyddiaeth o gywair priodol i'r dasg a'r gynulleidfa • gafael gyson ar ramadeg ar y cyfan • defnyddio amrywiaeth o frawddegau • mwyafrif y treigladau yn gywir • mwyafrif y berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn gywir
2	**5-8 marc** • gwneud cyfraniad penodol a pherthnasol i'r drafodaeth • trafod a mynegi barn ar adegau allweddol • gwrando ar adegau allweddol, gan ddangos ychydig o ddealltwriaeth o'r syniadau a drafodwyd • ymateb yn eithaf priodol i'r hyn a glywir, gan gynnwys cais iddynt egluro neu roi mwy o fanylion • datblygu peth ar syniadau gan gyfeirio at ambell fanylyn penodol • gallu cyfeirio'n syml at yr ysgogiad print perthnasol	**5-8 marc** • defnyddio peth ystod o eirfa • dangos peth ymwybyddiaeth o gywair priodol i'r dasg a'r gynulleidfa • gafael anghyson ar ramadeg • amrywio brawddegau rywfaint • treigladau yn eithaf cywir • berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn eithaf cywir

© WJEC CBAC Ltd 2026

1	**1-4 marc** • gwneud cyfraniadau byr, achlysurol a gosodiadau cyffredinol wrth drafod • mynegi barn yn fyr ac yn syml • gwrando ar adegau, gan ddangos peth dealltwriaeth o'r syniadau a drafodwyd • ymateb i'r hyn a glywir gyda pheth diddordeb, gan gynnwys ceisiadau iddynt egluro neu roi mwy o fanylion • ymgais i gyfeirio'n syml at yr ysgogiad print perthnasol	**1-4 marc** • ystod gyfyngedig o eirfa • gafael gyfyngedig ar ramadeg • ystod gyfyngedig o frawddegau • gafael gyfyngedig ar dreigladau • gafael gyfyngedig ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid
0	Dim sy'n haeddu ei wobrwyo.	

© WJEC CBAC Ltd 2026

Tasg 2: Ysgrifennu'n Greadigol

Disgwylir i'r athro / athrawes farcio'r dasg o gyfanswm o 20.

Dyfernir 10 marc ar gyfer AA1 (deall ac ymateb).

Dyfernir 10 marc ar gyfer AA2 (mynegi a chyfathrebu).

Dylid pennu'r band priodol ar gyfer pob colofn yn unigol drwy benderfynu pa ddisgrifydd perfformiad sy'n adlewyrchu perfformiad y dysgwr orau.

Yna dylid pennu'r marc priodol o fewn y band drwy bennu i ba raddau y mae'r dysgwr wedi bodloni'r meini prawf yn y band perthnasol.

Gall cyfanswm y marciau ar gyfer pob perfformiad adlewyrchu gwahanol fandiau ar draws y meini prawf asesu, er enghraifft, gall dysgwyr gyflawni band 4 yng ngholofn 1 a band 3 yng ngholofn 2.

Dylid nodi bod y bandiau wedi'u cynllunio i gynorthwyo'r broses farcio drwy nodi lefelau cyflawniad unigol ac nid ydynt yn cyfateb i ffiniau graddau.

Band	AA1 Cynnwys a threfn	AA2 Cywair a chywirdeb iaith a strwythur brawddegol
5	**9-10 marc** • ysgrifennu aeddfed a threiddgar • ysgrifennu effeithiol sy'n cynnal diddordeb y darllenydd trwy gydol y darn • addasu'r cywair priodol yn hyderus i'r pwrpas/cynulleidfa • datblygu syniadau yn argyhoeddiadol gyda manylder, gwreiddioldeb a dychymyg • adeiladwaith sicr a chydlynol; strwythur soffistigedig i'r ysgrifennu	**9-10 marc** • defnyddio ystod eang o eirfa heriol ac addas yn hyderus i greu effaith neu i gyfleu ystyr benodol gywir • gafael sicr iawn ar ramadeg • defnyddio amrywiaeth o frawddegau addas ac effeithiol • defnydd eang o gystrawennau cywir • defnydd hyderus a chywir o ystod o atalnodi • sillafu yn gywir bron yn ddieithriad • gafael sicr iawn ar dreigladau • gafael sicr iawn ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid
4	**7-8 marc** • ysgrifennu sy'n dangos yn glir y gallu i ddewis a dethol syniadau perthnasol a phriodol • ysgrifennu sy'n dangos dealltwriaeth sicr sut i ddal diddordeb y darllenydd • addasu'r cywair yn briodol a chyson i'r pwrpas/cynulleidfa • datblygu syniadau gyda manylder sy'n argyhoeddi a cheir peth gwreiddioldeb a dychymyg • ysgrifennu wedi ei strwythuro'n bwrpasol a'i drefnu'n eglur i roi dilyniant rhwydd a llyfn	**7-8 marc** • defnyddio ystod eang o eirfa yn gywir • gafael sicr ar gramadeg • defnyddio amrywiaeth o frawddegau i greu effeithiau arbennig • defnyddio ystod dda o gystrawennau'n gywir • defnydd cywir o ystod o atalnodi • sillafu sicr • gafael sicr ar dreigladau • gafael sicr ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid

© WJEC CBAC Ltd 2026

3	**5-6 marc** • ysgrifennu cydlynol a diddorol ar y cyfan • ymwybyddiaeth glir sut i ddal diddordeb y darllenydd • cywair yn briodol ac yn addas ar y cyfan i'r pwrpas/cynulleidfa • syniadau sy'n dangos datblygiad a cheir rhai cyffyrddiadau diddorol yn yr ysgrifennu • gwaith trefnus sy'n rhoi dilyniant a strwythur	**5-6 marc** • defnyddio ystod dda o eirfa yn eithaf cywir • gafael gyson ar ramadeg ar y cyfan • defnyddio amrywiaeth o frawddegau • defnyddio ystod o gystrawennau'n gywir ar y cyfan • defnydd cywir ar y cyfan o ystod o atalnodi • sillafu mwyafrif y geiriau'n gywir • mwyafrif y treigladau yn gywir • mwyafrif y berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn gywir
2	**3-4 marc** • peth ysgrifennu cydlynol • peth ymwybyddiaeth o sut i greu effaith i ddal diddordeb y darllenydd • ymdrech glir i addasu cywair i bwrpas / darllenydd • datblygu rhai syniadau gydag ambell gyffyrddiad diddorol • peth trefn a dilyniant syniadau i'r gwaith	**3-4 marc** • defnyddio peth ystod o eirfa • gafael anghyson ar ramadeg • amrywio brawddegau rywfaint • peth gafael ar gystrawen • peth gafael ar ystod o atalnodi • sillafu yn eithaf cywir • treigladau yn eithaf cywir • berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn eithaf cywir
1	**1-2 farc** • ysgrifennu cydlynol elfennol • ymwybyddiaeth syml o'r darllenydd • peth ymdrech i addasu cywair i bwrpas/ cynulleidfa • peth cynnwys perthnasol er yn anghyson • trefn elfennol a dilyniant syml i syniadau	**1-2 farc** • ystod gyfyngedig o eirfa • gafael gyfyngedig ar ramadeg • defnyddio ystod gyfyngedig o frawddegau • gafael gyfyngedig ar gystrawen • peth ymdrech i atalnodi • sillafu rhai geiriau yn gywir • gafael gyfyngedig ar dreigladau • gafael gyfyngedig ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid
0	Dim sy'n haeddu ei wobrwyo	

© WJEC CBAC Ltd 2026

Atodiad 1

Deunydd Ysgogi Enghreifftiol

Gweler yr atodiadau perthnasol.

Tasgau Enghreifftiol

Tasg ysgrifenedig greadigol yn seiliedig ar y deunydd ysgogi.

Dewiswch **un** o'r tasgau isod:
- Dylech chi geisio ysgrifennu rhwng 500 a 1000 o eiriau
- Rhaid dewis **un** o'r ffurfiau a ganiateir ar gyfer ysgrifennu'r dasg.

Deunydd Ysgogi	Tasg (dewis o ffurfiau)
Gwyliau haf	• Ysgrifennwch ddarn creadigol 'Yr haf gorau erioed'.
Protestio	• Ysgrifennwch ddarn creadigol gan neu am rywun sydd yn penderfynu protestio mewn rhyw ffordd am fater maent yn teimlo'n gryf amdano.
Merched y Meysydd	• Ysgrifennwch ddarn creadigol am rywun sydd yn teimlo nad yw yn cael ei drin yn deg gan eraill. **Neu** • Ysgrifennwch ddarn creadigol am rywun sydd wedi llwyddo er gwaethaf rhwystr(au).

© WJEC CBAC Ltd 2026

Atodiad 2

Taflen Cofnodi Marciau'r Ymgeisydd & Ffurflen Datganiad yr Ymgeisydd

Rhif y Ganolfan:	6	8						**Enw'r Ganolfan:**	

Rhif yr ymgeisydd:						**Enw'r ymgeisydd:**	

Tasg 1: Ymateb a Rhyngweithio

Disgrifiad o'r gweithgaredd:	
Sylwadau gan yr athro/athrawes:	
AA1: Deall ac ymateb	/20
AA2: Mynegi a chyfathrebu	/20
Cyfanswm marciau	**/40**

Tasg 2: Ysgrifennu'n Greadigol

Disgrifiad o'r gweithgaredd:	
Sylwadau gan yr athro/athrawes:	
AA1: Cynnwys a threfn	/10
AA2: Cywair a chywrideb iaith a strwythur brawddegol	/10
Cyfanswm marciau	**/20**

Datganiad gan Athro/Athrawes/Aseswr

Rwy'n cadarnhau bod gwaith yr ymgeisydd/ymgeiswyr wedi ei gynnal yn unol â'r rheolaethau a nodwyd yn y fanyleb a'r papur cwestiwn.

Llofnod yr aseswr:	**Dyddiad:**

© WJEC CBAC Ltd 2026

Asesu ymgeiswyr unigol

(I'w gwblhau os ydych wedi gorfod asesu ymgeisydd yn unigol ar ddiwrnod yr asesiad a/neu os ydych wedi cysylltu gyda CBAC o flaen llaw i gael caniatâd).

Rheswm dros asesu ymgeisydd yn unigol:

Datganiad Dilysu'r Ymgeisydd

Rwy'n datgan fy mod wedi cwblhau fy ngwaith yn annibynnol, heb unrhyw gymorth y tu hwnt i'r hyn oedd wedi ei ganiatáu. Fy ngwaith fy hun yw'r gwaith i gyd, ac eithrio unrhyw ddeunydd nad yw'n wreiddiol sydd wedi'i nodi'n glir uchod. Nid yw'r gwaith hwn wedi'i gyflwyno ar gyfer unrhyw gymhwyster arall. Yr wyf wedi cyfeirio'n glir at unrhyw ffynonellau ac unrhyw offer Deallusrwydd Artiffisial (AI) a ddefnyddiwyd yn y gwaith [1]. Rwy'n deall bod gwneud datganiad ffug yn fath o gamymddwyn.

Cydsyniad GDPR Ymgeisydd

- Efallai y bydd CBAC yn dewis eich gwaith i'w ddefnyddio mewn digwyddiadau hyfforddi i athrawon. Gallan nhw wedyn ei uwchlwytho i wefan ddiogel CBAC (dim ond ar gael i athrawon sydd â mynediad drwy fewngofnodi diogel). Byddai eich enw yn cael ei dynnu oddi ar eich gwaith cyn i ni ei ddefnyddio. Mae pob darn yn cael ei adolygu'n gyson a'i ddileu pan nad yw'n berthnasol i'n cymwysterau mwyach.
- Efallai y bydd CBAC yn dewis eich gwaith i'w ddefnyddio mewn adnoddau ar gyfer addysgu a dysgu a gyhoeddir ar wefan gyhoeddus CBAC. Byddai eich enw yn cael ei dynnu oddi ar eich gwaith cyn i ni ei ddefnyddio. Mae pob darn yn cael ei adolygu'n gyson a'i ddileu pan nad yw'n berthnasol i'n cymwysterau mwyach.
- Rydych chi'n deall ei bod yn bosibl dod â'r cytundeb hwn i ben ar unrhyw adeg drwy ysgrifennu atom i wneud cais am hynny . Am ragor o fanylion ynglŷn â sut rydym yn prosesu eich data, darllenwch Hysbysiad Preifatrwydd CBAC.

Datganiad yr ymgeisydd

Rwy'n rhoi caniatâd i fy ngwaith llafar gael ei ddefnyddio mewn digwyddiadau hyfforddi athrawon ac i'w lwytho i fyny ar wefan ddiogel CBAC / i gael ei ddefnyddio fel rhan o adnodd dysgu ac addysgu digidol ar wefan gyhoeddus CBAC.

		Ticiwch y blwch olaf i gytuno:
Llofnod ymgeisydd 1:	**Dyddiad:**	
Llofnod ymgeisydd 2:	**Dyddiad:**	
Llofnod ymgeisydd 3:	**Dyddiad:**	

[1] Lle defnyddiwyd offer AI fel ffynhonnell gwybodaeth, rhaid i chi ddangos enw'r ffynhonnell AI a ddefnyddiwyd gan ddangos hefyd y dyddiad y cynhyrchwyd y cynnwys. Er enghraifft: ChatGPT 3.5 (https://openai.com/blog/chatgpt/), 25/01/2023. Rhaid i chi gadw copi o'r cwestiwn (cwestiynau) a'r cynnwys wedi'i gynhyrchu gan gyfrifiadur at ddibenion cyfeirnodi a dilysu, ar ffurf nad oes modd ei golygu (sgrinlun, er enghraifft) a darparu esboniad byr o sut cafodd ei ddefnyddio. Rhaid cyflwyno hyn gyda'ch gwaith, er mwyn i'r athro/aseswr allu adolygu'r gwaith, y cynnwys a gynhyrchwyd gan AI a sut y cafodd ei ddefnyddio. [1] [2]Rhaid i chi fod dros 13 oed i roi cydsyniad. Cewch chi dynnu eich cydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg drwy gysylltu â CBAC ar cymwysterau@cbac.co.uk. Dylech chi gynnwys teitl y gwaith, blwyddyn yr asesiad, enw a rhif y ganolfan, enw'r ymgeisydd a theitl yr uned yn yr e-bost. Yna bydd y gwaith yn cael ei dynnu oddi ar y wefan ddiogel.

© WJEC CBAC Ltd 2026